CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Cynllun Corfforaethol

## 2024 - 2027







Unity Hubb, Lloegr

# Cynnwys

**Cyflwyniad y Prif Weithredwr** ........ **4**
**Ein diben** ........ **6**
**Ein cenadaethau** ........ **7**
**Ein gwerthoedd** ........ **8**
**Ein dulliau gweithio** ........ **9**
**Ein dangosyddion perfformiad allweddol (DPA)** ........ **10**
**Amcan corfforaethol 1 - gwneud gwahaniaeth** ........ **11**
**Amcan corfforaethol 2 - hyrwyddo arferion ariannu** ........ **12**
**Amcan corfforaethol 3 - Un Gronfa** ........ **13**

**Delweddau clawr**

De uchaf: 21 Together, Lloegr

Chwith gwaelod: Arts Ekta, Gogledd Iwerddon

# Cyflwyniad y Prif Weithredwr

## Cymuned yw'r man cychwyn: ein cynllun corfforaethol ar gyfer y tair blynedd nesaf, 2024-2027.

**Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol credwn fod cysylltiadau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol wrth galon creu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas lewyrchus.**

O nawr tan 2030 bydd ein strategaeth, Cymuned yw'r man cychwyn, yn arwain sut y byddwn yn cefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned ym mhob rhan o'r DU, gan roi dull sy'n seiliedig ar degwch i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chanolbwyntio fwyaf ar y meysydd lle mae'r angen mwyaf wrth wraidd popeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwymo i aros wedi'n gwreiddio yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu o'r prosiectau lleiaf a ariennir i'r buddsoddiadau strategol mwyaf. Rydym yn glir yn ein huchelgais i fod yn fwy nag ariannwr trwy ddysgu a gweithio gydag eraill wrth i ni wneud hynny.

Mae'r cynllun hwn yn crynhoi tair blynedd gyntaf ein strategaeth ac yn cyd-fynd â phennod newydd yn stori'r Loteri Genedlaethol. Mae'n un sy'n rhagweld enillion cynyddol i achosion da, gan ein bod yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed eleni. Mae'n adlewyrchu sut y byddwn yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, Cyfrifon Segur, ac yn gweithio gyda phartneriaid eraill gan gynnwys llywodraethau, busnesau, arianwyr a mudiadau.

Fel Un Gronfa, byddwn yn adeiladu ar yr ymagwedd dyfarnu grantiau leol a pherthnasol y gwyddom ei fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr ar draws ein holl bortffolios dyfarnu grantiau. Eleni byddwn yn gweld cynigion ariannu o'r newydd i gyflawni ein cenadaethau tra'n ymateb i gyd-destunau datganoledig yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac a ategir gan bortffolio DU gyfan.

Mae'n gynllun datblygu ymestynnol gydag uchelgais i arloesi, dysgu ac addasu. Rydym wedi rhoi premiwm ar bartneriaeth oherwydd ein bod yn gwybod y pŵer o weithio gydag eraill. Ac rydym wedi rhoi ein pobl, a fydd yn llunio ac yn cyflawni hyn, wrth galon y cynllun hwn.



Middleport Matters, Lloegr

## Amcan corfforaethol 1: gwneud gwahaniaeth

Byddwn yn canolbwyntio ein hariannu a'n cymorth i gael yr effaith fwyaf posibl ar gymunedau ledled y DU. Gan adeiladu ar newidiadau a roddwyd ar waith yn 2023 ar gyfer ariannu cymunedol ar lawr gwlad, lle gwnaethom ddyblu swm y grant a hyd y grant sydd ar gael drwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, mae'r cynllun hwn yn ein hymrwymo i fwy, gan gynnwys treialu grantiau un cam syml hyd at £50,000.

Byddwn yn cefnogi cymunedau i adeiladu ar eu cryfderau. Byddwn yn cefnogi'r hyn sydd bwysicaf i wahanol gymunedau, gan gynnwys buddsoddiad hirdymor i fynd i'r afael â heriau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn a byddwn yn ymdrechu'n barhaus i wella profiad cwsmeriaid gan gynnig llwybrau ariannu syml a chyflym lle bo'n briodol.

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar gyflawni ar draws ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned. Bydd ein portffolios ariannu newydd ledled y DU yn adlewyrchu ein cenadaethau drwy flaenoriaethau lleol yn ogystal â'r newidiadau mwy a hirdymor yr ydym wedi clywed bod cymunedau am eu gweld gennym. Byddwn yn darparu fframwaith cenhadaeth a strategaeth effaith ac yn ei roi ar waith i gefnogi ein ffocws ar y cenadaethau a chryfhau ein heffaith.

## Amcan corfforaethol 2: hyrwyddo arferion ariannu

Rydym wedi ymrwymo i ymagwedd sy'n seiliedig ar degwch i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan fuddsoddi fwyaf mewn lleoedd, pobl a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu. Byddwn yn adolygu ac yn rhoi fformiwla ariannu cyllideb newydd ar waith i gefnogi ein darpariaeth o ran tegwch ac arloesedd, gan ymgorffori newid ar draws ein diwylliant, systemau ac arferion.

Fel ariannwr amgylcheddol adfywiol byddwn yn ymgorffori cefnogaeth ar gyfer gweithredu amgylcheddol ar draws yr holl ariannu, gan gynnwys cefnogi prosiectau i ystyried yr amgylchedd hyd yn oed pan nad dyna yw eu prif ffocws. Yn ei dro, byddwn yn rheoli ein heffaith amgylcheddol ein hunain ac yn dylanwadu ar newid.

## Amcan corfforaethol 3: Un Gronfa

Byddwn yn buddsoddi yn ein pobl, diwylliant, technoleg a gweithrediadau ehangach i ragori yn y modd yr ydym yn cefnogi cymunedau gan sicrhau bod ein hariannu yn cael ei ddosbarthu'n effeithiol ac yn effeithlon. Byddwn yn cynnal perfformiad uchel ar draws ein swyddogaethau ac yn defnyddio adnoddau'n dda. Ein gwerthoedd fydd ein man cychwyn ar gyfer sefydliad pwrpasol ac ymgysylltiol, un sy'n adlewyrchu amrywiaeth a phrofiadau cymunedau ledled y DU.

**David Knott**

**Prif Weithredwr, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**

# Ein diben

**Cymuned yw'r man cychwyn.**

Mae cysylltiadau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol yn ganolog i greu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas lewyrchus. Dyna pam mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau anhygoel a arweinir gan y gymuned. A pham ein bod yn edrych i wneud mwy o wahaniaeth yn y blynyddoedd i ddod, drwy wrando ar gymunedau ac ymateb iddynt a thrwy ganolbwyntio ar gefnogi newid mwy beiddgar.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, byddwn yn dosbarthu o leiaf £4 biliwn pellach erbyn 2030, gan gefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy - gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU.



Dates-n-Mates, Yr Alban


# Ein cenadaethau

Rydym yn cefnogi cymunedau i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu, gan gryfhau ein hariannu ar lawr gwlad. Rydym wedi gosod pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned lle byddwn yn canolbwyntio ariannu, dysgu ac ymdrechion.

Mae ein hariannu wedi cefnogi'r meysydd hyn erioed. Nawr rydym yn mynd ymhellach, gan ddod â ffocws o'r newydd i gael mwy o effaith.



Chinese Women's Association, Cymru




# Ein gwerthoedd




### Rydym yn gynhwysol

Gwyddom fod cymunedau a mudiadau yn gryfach pan fydd pawb yn gallu cymryd rhan, ac yn gweithio i gynyddu cynhwysiant.



### Rydym yn uchelgeisiol

Credwn yng ngrym cymuned a chysylltiadau ac rydym yn uchelgeisiol ar gyfer ei botensial. Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i lunio'r dyfodol ac arwain newid.



### Rydym yn canolbwyntio ar effaith

Cawn ein hysbrydoli gan gymunedau ac rydym yn dysgu gyda nhw. Rydym yn gwrando, yn myfyrio ac yn defnyddio tystiolaeth i wella gwybodaeth, llywio camau gweithredu a chynyddu effaith.



### Rydym yn hyblyg

Rydym yn croesawu ac yn cofleidio syniadau a dulliau gweithio newydd.



### Rydym yn dosturiol

Rydym yn gweithio gyda gofal, ystyriaeth a gostyngeiddrwydd.

# Ein dulliau gweithio

**Rydym yn dechrau gyda chryfderau unigolion a chymunedau ac yn adeiladu arnynt.**
Rydym yn gwrando ar gymunedau ac yn ymddiried yn eu galluoedd. Rydym yn cydweithio, yn darparu cymorth ond hefyd yn herio, i helpu i wneud i bethau gwych ddigwydd.

**Prosesau syml, dulliau gweithio agored.**
Rydym yn gweithredu'n dryloyw, gan rannu gwybodaeth a gofynion yn agored. Rydym yn onest, yn glir ac yn syml, ac yn darparu ac yn croesawu adborth parchus.

**Agored i bawb, buddsoddi mewn angen.**
Mae ein hariannu yn agored i bob cymuned, ond rydym yn buddsoddi fwyaf yn y rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym yn gwrando ac yn defnyddio tystiolaeth i dargedu adnoddau i helpu cymunedau i oresgyn rhwystrau a chyflawni eu potensial.

**Gweithredu cadarnhaol dros yr amgylchedd, hinsawdd a natur.**
Rydym yn ariannwr amgylcheddol adfywiol, felly mae ein penderfyniadau a'n buddsoddiad yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n gadarnhaol yn amgylcheddol, addasu i'r hinsawdd, gwytnwch hinsawdd ac adfer byd natur.

**Effaith a dysgu.**
Rydym yn defnyddio ac yn buddsoddi mewn tystiolaeth, o lygad y ffynnon ac wedi'i dysgu, ac yn rhannu'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio. Rydyn ni'n greadigol, gan ddefnyddio ein dysgu i addasu a helpu'r rhai rydyn ni'n gweithio gyda nhw i wneud yr un peth. Rydym yn canolbwyntio'r ariannu a ddarparwn ar ble y gall helpu i gael yr effaith fwyaf.

**Creu cysylltiadau, meithrin partneriaethau.**
Lle bynnag y bo modd, rydym yn adeiladu partneriaethau sy'n dod â phobl at ei gilydd gyda diben cyffredin. Rydym yn annog pawb rydym yn gweithio gyda nhw i gydweithio a rhannu eu profiadau ag eraill.

# Ein dangosyddion perfformiad allweddol (DPA):

**DPA 1** - Bydd mwy nag **80%** o ardaloedd ar draws y DU yn gwneud cais am arian Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a bydd o leiaf **60%** o ardaloedd yn derbyn grant.

**DPA 2** - Mae prif ffocws mwy na **90%** o grantiau ar un o'r pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned.

**DPA 3** - Bydd mwy na **50%** o'r holl grantiau fesul swm yn mynd i gymunedau sy'n profi'r tlodi a'r anfantais fwyaf.

**DPA 4** - Bydd o leiaf **15%** o'n grantiau'n mynd i brosiectau sydd â chynaliadwyedd amgylcheddol fel eu prif nod.

**DPA 5** - Bydd ein sgôr ymgysylltu â chyflogeion yn y chwartel uchaf o gymharu â mudiadau tebyg a chymaradwy.

**DPA 6** - Mae mwy na **50%** o'r cyhoedd ac aelodau etholedig (ASau a chynrychiolwyr mewn gweinyddiaethau datganoledig) yn ymwybodol bod y Gronfa'n cefnogi achosion da diolch i'r Loteri Genedlaethol.

**DPA 7** - Ni fydd gwerth dyfarniadau grant yn llai na **95%** o'r gyllideb.

**DPA 8** - Bydd boddhad cyffredinol cwsmeriaid dros **80%**.


Ethnic Youth Support Team, Cymru

# Amcan corfforaethol 1 – gwneud gwahaniaeth

## Byddwn yn canolbwyntio ein hariannu a'n cymorth i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar gymunedau ledled y DU.

### Blaenoriaeth strategol 1: Byddwn yn ehangu ein hariannu cymunedol ar lawr gwlad.

**I lwyddo byddwn:**

- yn sicrhau bod ein prosesau yn glir ac yn syml er mwyn cynyddu mynediad at ariannu ar gyfer cymunedau llawr gwlad,
- yn adeiladu ar ehangu ein rhaglen grantiau bach, Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys treialu dyfarniad grant o £50,000,
- yn darparu profiad cwsmer o ansawdd uchel yn gyson, gydag ymrwymiad i welliant parhaus, gan sicrhau bod gennym brosesau effeithlon a hygyrch ar gyfer gwneud cais am arian a'i dderbyn, ac
- yn defnyddio ein gwybodaeth a'n dysgu i ddeall yr effaith y mae ein hariannu'n ei chael ar gymunedau llawr gwlad.


Isaro, Yr Alban

### Blaenoriaeth strategol 2: Byddwn yn canolbwyntio ar ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned.

**I lwyddo byddwn:**

- yn rhoi fframwaith cenhadaeth ar waith sy'n disgrifio'r canlyniadau penodol y bydd ein hariannu yn cyfrannu atynt ar draws ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned, gan gefnogi cymunedau:
  - i ddod ynghyd
  - i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol
  - i helpu plant a phobl ifanc i ffynnu
  - i alluogi pobl i fyw bywydau iachach
- yn lansio portffolios ariannu newydd yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, wedi'u hategu gan bortffolio ar gyfer y DU gyfan yn 2024 sy'n adlewyrchu ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned, y fframwaith cenhadaeth ac anghenion ariannu ledled y DU,
- yn datblygu partneriaethau ystyrlon i lywio ein penderfyniadau buddsoddi strategol a chael mwy o effaith,
- yn dylunio, lansio a gweithredu strategaeth effaith gyda ffocws ar gefnogi mwy o effaith a gwneud y gwahaniaeth mwyaf, ac
- yn defnyddio ein gwybodaeth, dysgu a thystiolaeth i rannu ag eraill yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn sydd heb weithio.

# Amcan corfforaethol 2 - hyrwyddo arferion ariannu

## Byddwn yn gwella ac yn arloesi sut rydym yn ariannu ac yn ein dulliau gweithio, gan flaenoriaethu ymagwedd sy'n seiliedig ar degwch a chamau amgylcheddol.

### Blaenoriaeth strategol 3: Byddwn yn defnyddio ymagwedd seiliedig ar degwch i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

**I lwyddo byddwn:**

- yn adolygu a gweithredu fformiwla cyllidebau grant a dyraniadau newydd ar draws ein holl bortffolios ariannu, sy'n ymgorffori mesurau a arweinir gan ecwiti i adlewyrchu anghenion cymunedau yn well,
- yn buddsoddi fwyaf mewn lleoedd, pobl a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu,
- yn arloesi ein harferion ariannu a phartneru â mudiadau sydd â dealltwriaeth ddofn o gymunedau, pobl a materion i gyrraedd cymunedau newydd a rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol,
- yn gwella dysgu a dealltwriaeth o anghydraddoldeb a defnyddio'r wybodaeth hon i hybu arfer a chyrhaeddiad ariannu,
- yn cynnull budd-ddeiliaid ac arianwyr eraill i archwilio heriau a datblygu cyfleoedd newydd, ac
- yn gwella ein systemau, ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio i gefnogi ein staff a'n cwsmeriaid i wreiddio ein hymagwedd sy'n seiliedig ar degwch i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

### Blaenoriaeth strategol 4: Byddwn yn rhoi'r amgylchedd wrth galon ein hariannu a'n gweithrediadau.

**I lwyddo byddwn:**

- yn defnyddio ein safle fel ariannwr cymunedol mwyaf y DU i adeiladu tuag at ddyfodol amgylcheddol adfywiol,
- yn cefnogi ein cwsmeriaid, ymgeiswyr a deiliaid grantiau i gryfhau eu dealltwriaeth a'u hymrwymiadau amgylcheddol,
- yn ariannu prosiectau sy'n cael effaith sy'n gwarchod yr amgylchedd ac sydd o bwys i gymunedau lleol,
- yn bod yn esiampl o ran rheoli ein heffaith amgylcheddol ein hunain trwy weithio tuag at sero net a rhannu ein harferion ar hyd y ffordd i ysbrydoli eraill, ac
- yn defnyddio ein dylanwad a'n harweinyddiaeth drwy gynnull budd-ddeiliaid a rhannu arbenigedd.



L'Arche Village, Gogledd Iwerddon

# Amcan corfforaethol 3 – Un Gronfa

## Fel Un Gronfa byddwn yn buddsoddi yn ein pobl, diwylliant, technoleg a gweithrediadau i ragori yn ein cefnogaeth i gymunedau.

**Blaenoriaeth strategol 5: Byddwn yn sicrhau bod ein harferion pobl a diwylliant yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.**

**I lwyddo byddwn:**

- yn arwain a chefnogi ein cydweithwyr i alluogi gweithlu uchelgeisiol a chynhwysol, sydd â'r gallu i gyflawni ein huchelgeisiau strategol,
- yn sicrhau bod ein mudiad yn adlewyrchu amrywiaeth a phrofiadau cymunedau ledled y DU,
- yn darparu strategaethau pobl, polisïau a dulliau gweithio sy'n ystwyth ac yn hyblyg gan ddarparu cydweithwyr hynod ymroddedig sy'n cefnogi pobl a chymunedau, ac
- yn weithredol o ran hyrwyddo, gwreiddio a dathlu ein gwerthoedd fel bod yr holl gydweithwyr, fel Un Gronfa, yn cael eu grymuso i'w gwireddu o ddydd i ddydd.

**Blaenoriaeth strategol 6: Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n dda i ddarparu ariannu a chymorth i gymunedau.**

**I lwyddo byddwn:**

- yn gwneud y mwyaf o'n grantiau wrth fynd ati'n rhagweithiol i reoli risgiau ariannol a risgiau eraill,
- yn ysgogi effeithlonrwydd ac yn addasu i ddefnyddio ein hadnoddau'n effeithiol drwy welliant parhaus a thrawsnewidiol,
- yn bod yn optimistaidd i gofleidio technoleg a gallu digidol newydd sy'n dod i'r amlwg sy'n symleiddio, yn ail-ddychmygu ac yn gwella ein proses ariannu ar gyfer cydweithwyr a chwsmeriaid, ac
- yn dod â'r stori'n fyw am sut mae arian y Loteri Genedlaethol, a'n hariannu arall, yn helpu i gryfhau cymdeithas a gwella bywydau ledled y DU.



UK Planetary Boundaries, Lloegr



Ellesmere Community Centre, Lloegr

# Diolch

**Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o arian ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn y DU.  Rydym yn Un Gronfa sydd wedi'i lleoli mewn cymunedau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac mae ein gwaith yn adlewyrchu amrywiaeth y DU.

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol. Rydym yn weithredol annibynnol ac yn dosbarthu ariannu gan y Loteri Genedlaethol, Cyfrifon Segur a thrydydd partïon eraill, gan dderbyn cyfarwyddiadau polisi gan Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig. Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol sy'n darparu'r rhan fwyaf o'n hadnoddau bob tro y byddant yn chwarae.

Rydym yn cefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy – gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau.

Rydym yn ariannu cymunedau ledled y DU a byddwn yn dyfarnu dros £4 biliwn erbyn 2030. Rydym yn derbyn ac yn dyfarnu 40% o incwm achosion da'r Loteri Genedlaethol ac yn pennu ein cyllidebau buddsoddi blynyddol yn seiliedig ar y swm a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ledled y DU. Rydyn ni yma i gefnogi a galluogi cymunedau i gysylltu, adeiladu perthnasoedd a gweithredu ar y pethau sydd bwysicaf iddyn nhw.

Rydym yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n cefnogi ymagweddau beiddgar a newid hirdymor ac rydym yn gwrando ac yn ymateb i'r hyn sydd bwysicaf i gymunedau wrth i ni gyflawni ein pedair cenhadaeth. Mae gennym fodel gwneud grantiau hyblyg sy'n cynnig ariannu o £300 drwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i grantiau tymor hwy a phartneriaethau strategol sylweddol.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn fwy nag ariannwr sy'n cynnig cymorth trwy ddysgu, cynnull, partneru a hyrwyddo.